Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Cofrestr NMC Cymru Diweddariad canol y flwyddyn

## 1 Ebrill – 30 Medi 2021



**Fe dyfodd nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio* ar ein cofrestr yng Nghymru o 37,446 ar ddechrau mis Ebrill i 38,053 ar ddiwedd mis Medi.**

Mewn cymhariaeth, fe dyfodd nifer y gweithwyr proffesiynol yng Nghymru 528 (1.4%) yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, Ebrill i Fedi 2020.

**607 (1.6%)**




**Fe dyfodd nifer y nyrsys ar ein cofrestr yng Nghymru o 35,274 ym mis Ebrill i 35,834 ym mis Medi.**

Rhwng Ebrill a Medi 2020, fe dyfodd nifer y nyrsys 458 (1.3%).

**560 (1.6%)**



**Cynyddodd nifer y bydwragedd ar ein cofrestr yng Nghymru o 1,747 ym mis Ebrill i 1,809 ym mis Medi.**

Rhwng Ebrill a Medi 2020, cynyddodd nifer y bydwragedd 76 (4.6%).

**62 (3.5%)**



**Gostyngodd nifer yr unigolion cofrestredig deuol (pobl a gofrestrwyd fel nyrs a bydwraig) yng Nghymru o 419 ym mis Ebrill i 404 ym mis Medi.**

Rhwng Ebrill a Medi 2020, gostyngodd nifer yr unigolion cofrestredig deuol 8 (-1.8%).

**15 (-3.6%)**




Mae hwn yn grynodeb lefel uchel o'n data. Mae gennym fersiwn fanylach o'r data hyn ar gael ar ein **gwefan**.

*Mae cymdeithion nyrsio yn gymwys i ymarfer yn Lloegr yn unig. Mae gan gyfran fach gyfeiriadau cofrestredig y tu allan i Loegr.


Ffigur 1

## Nifer y bobl ar y gofrestr barhaol gyda chyfeiriad yng Nghymru.




Ffigur 2


## Nifer y bobl yn ymuno â'r gofrestr barhaol am y tro cyntaf gyda chyfeiriad yng Nghymru.




* O'r 995 sydd wedi ymuno yng Nghymru yn y chwe mis hyd at fis Medi 2021, roedd 25 wedi bod ar gofrestr dros dro Covid-19. Yn y 12 mis hyd at Fawrth 2021, gadawodd 106 o bobl y gofrestr dros dro Covid-19 i ymuno â'r gofrestr barhaol.

Ffigur 2

**Nifer y bobl yn gadael y gofrestr barhaol gyda chyfeiriad yng Nghymru.**




Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar gyfeiriadau cofrestredig y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Nid yw data'r rhai sydd wedi ymuno'n cynnwys y rhai sy'n ail-ymuno â'r gofrestr ar ôl gadael o'r blaen. Hefyd, mae'r nifer gyffredinol ar y gofrestr yn dod o un pwynt mewn amser, tra mai data'r rhai sydd wedi ymuno'n a'r rhai sydd wedi gadael yw swm y gweithgarwch dros chwe mis. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn adio i fyny yn union.



# Cofrestr dros dro Covid-19 yng Nghymru

## Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom sefydlu cofrestr dros dro Covid–19 i gefnogi ymateb y DU i'r pandemig coronafeirws.

Fe wnaethom wahodd nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol o fewn y pum mlynedd diwethaf i ymuno. Fe wnaethom hefyd wahodd ymgeiswyr tramor a oedd wedi cwblhau pob rhan o'u proses gofrestru NMC ac eithrio eu OSCE (archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol).

Cymerir y data isod ar 30 Medi 2021 - yr un peth â'r data o'n cofrestr barhaol uchod yn yr adroddiad hwn. Er eglurder, ni chynhwysir data o gofrestr dros dro Covid-19 yn ffigurau 1-3 uchod.

**Tabl 1**

**Cyfanswm y bobl ar y gofrestr dros dro Covid–19 gyda chyfeiriad yng Nghymru.**

| | 31 Medi 2021 |
|---|---|
| Nyrs | 686 |
| Bydwraig | 43 |
| Nyrs a bydwraig | 9 |
| **Cyfanswm** | **738** |

Rhwng Ebrill a Medi, gadawodd 25 o bobl yng Nghymru y gofrestr dros dro Covid-19 i ymuno â'r gofrestr barhaol.

Nid yw'r rhifau hyn yn cynnwys pobl sydd eisoes wedi cofrestru gyda ni yn symud i Loegr, neu bobl sy'n dychwelyd i'r gofrestr.

Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar gyfeiriadau cofrestredig y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Nursing & Midwifery Council

Our vision is safe, effective and kind nursing and midwifery that improves everyone's health and wellbeing. As the professional regulator of almost 745,000 nursing and midwifery professionals, we have an important role to play in making this a reality.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7333 9333

**nmc.org.uk**

@nmcnews @nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)